# CYMERIADAU DEFFRO'R GWANWYN

Mae 13 prif gymeriad ond byddwn hefyd yn castio aelodau ensemble.

Mae pob cymeriad heblaw am yr oedolion yn eu harddegau.

Rydym yn chwilio am actorion gyda lleisiau canu cryf bydd yn gyfforddus wrth ganu ar gyfer y cynhyrchiad yma.

**Wendla**

Diniwed. Mae hi'n chwilfrydig am y byd o'i chwmpas a'r newidiadau sydd yn digwydd i'w chorff. Mae hi'n fregus ond hefyd yn barod i gymeryd rhan. Mae Wendla yn darganfod ac yn archwilio natur rywiol ei phersonoliaeth gyda Melchior.

**Melchior**

Bachgen deallus a phen galed sydd yn gwrthod plygu i reolau cymdeithas. Mae'n anffyddiwr ac yn radical. Mae'n brwydro gyda'i deimladau dwys tuag at Wendla a'i ddyheuadau rhywiol.

**Martha**

Merch ysgol sydd yn cael ei phoenydio gan ei thad. Mae ganddi deimladau cyfrinachol tuag at Moritz.

**Moritz**

Ffrind gorau Melchior a myfyriwr cythryblus. Mae'n ceisio plesio ei dad sydd wastad yn siomedig ynddo. Mae breuddwydion rhywiol a methu'n academaidd yn ei arwain at feddyliau tywyll.

**Thea**

Ffrind gorau Wendla. Merch ysgol sydd yn ceisio aros yn ddiniwed a phur.

**Hanschen**

Ffrind ysgol eithaf narsisaidd Melchior. Mae'n gyfforddus gyda'i rywioldeb ac yn defnyddio ei edrychiad a'i ddeallusrwydd i swyno Ernst.

**Anna**

Merch ysgol a ffrind gorau Martha.  Optimistig ac ychydig yn naive, mae hi'n cael trafferth deall trafferthion Martha.

**Ernst**

Ffrind ysgol Melchior.  Naive ac yn hawdd ei reoli sydd yn ei alluogi i syrthio mewn cariad gyda Hanschen.

**Ilse**

Chwaer Martha sydd hefyd wedi dioddef dan law ei thad ac sydd wedi rhedeg i ffwrdd i fyw gyda chriw o artisitiaid. Mae hi'n ceisio helpu ei ffrind Moritz ym munudau olaf ei fywyd.

**Georg**

Ffrind trwsgl Melchoir. Mewn cariad a'i athrawes biano.

**Otto**

Ffrind ysgol Melchior. Mae'n brwydro gyda theimladau mae o'n ei ystyried yn anerbyniol.

**Merched (Oedolion)**

Cymriadau yn cynnwys : FRAU BERGMAN, mam Wendla; FRAULEIN KNUPPELDICK; FRAULEIN GROSSEBUSTENHALTER; FRAU GABOR, mam Melchior;  a FRAU BESSELL, mam Martha.

**Dynion (Oedolion)**

Cymeriadau yn cynnwys: HERR SONNENSTITCH, athro'r bechgyn; Prifathro KNOCHENBRUCH; HERR NEUMANN, Tad Ilse's; HERR RILOW, Tad Hanschen; HERR STEIFEL, tad Moritz; FATHER KAULBACH; DOCTOR VON BRAUSEPULVER; HERR GABOR, tad Melchior; a SCHMIDT.